

# PRIFYSGOL ABERTAWA

## Gwasanaeth Teleofal



Prifysgol Abertawe  
Swansea University

### Beth yw Gwasanaeth Teleofal Prifysgol Abertawe?

Sefydlwyd y gwasanaeth hwn er mwyn cynorthwyo myfyrwyr sydd â chyflwr meddygol a allai effeithio ar eu gallu i fyw'n annibynnol ym mhreswylfeydd y Brifysgol. Gwneir hyn drwy gyfuniad o linell ffôn 24 awr i'r Ganolfan Fonitro a thechnoleg o'r radd flaenaf.

### Manteision y Gwasanaeth Teleofal

- **Ymateb Sydyn** – mae staff tra medrus yn ateb eich galwad ac yn ymyrd camau priodol i gael yr help y mae ei angen arnoch
- **Gwasanaeth Personol** – gwasanaeth cyfeillgar a hygyrch
- **Sicrwydd Llwyd** – cyswllt 24 awr â'r Ganolfan Fonitro
- **Hawdd ei Gosod** – system ddiwifr, felly dim gwifrau hyll

### Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio?

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys llinell ffôn 24 awr y dydd rhwng eich ystafell a'r Ganolfan Fonitro, lle bydd staff hyfforddedig yn cymryd y camau mwyaf priodol e.e. cysylltu ag aelod o'r teulu neu'r gwasanaethau brys.

### Beth ellir ei ddarparu?

Mae Teleofal yn cynnwys amrywiaeth o synwryddion wedi'u cysylltu â'r uned Llinell Achub Bywyd, sy'n cael eu monitro 24 awr y dydd yn ystod y flwyddyn academaidd, gan alluogi gweithredu'n gyflym os bydd angen.

Mae ystod hyblyg o synwryddion teleofal ar gael, gan gynnwys:

#### Uned Llinell Achub Bywyd



Uned sylfaen safonol gyda chroddlws personol sy'n darparu sicrwydd drwy gysylltu'r defnyddiwr â'r Ganolfan Fonitro 24 awr y dydd, lle cymerir camau priodol.

#### Synwrydd Cwmp / Clicied Personol




Gellir ei gwisgo o amgylch y gwddf, ar arddwrn neu ei roi ar ddilledyn, ac mae'r glicied personol yn galw am help i gael eich codi yn eich ystafell. Gall y synwrydd cwmp fod yn werthfawr drwy dawelu meddwl am ei fod yn synwrydd cwmp difrifol yn awtomatig ac yn rhoi gwybod i'r Ganolfan Fonitro.

#### Synwrydd Epilepsi



Mae swyddogaethau larwm y synwrydd Emfit yn monitro symudiadau'r unigolyn. Gall wahaniaethu rhwng symudiadau arferol a symptomau trawiad epileptig, megis crynu tonig-clonig neu symudiadau parhaus tebyg. Mae'r larwm yn canu os yw'r unigolyn yn symud yn anarferol yn hirach na'r oedi a osodwyd ymlaen llaw. Gellir gosod yr oedi rhwng 10 ac 20 eiliad.



Mae'r larwm yn canu



mae'r uned Llinell Achub Bywyd yn gweithio ac yn rhybuddio'r Ganolfan Fonitro drwy'r llinell ffôn



Mae'r Ganolfan Fonitro yn ateb eich galwad ac yn siarad â chi drwy'r Llinell Achub Bywyd



Anfonir ymateb priodol atoch